OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1648 (Cy.129)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'i wneud	- -	*21 Mehefin 2005*
Yn dod i rym	- -	*30 Mehefin 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 216(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005 ac fe ddaw i rym ar 30 Mehefin 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004

2. Ychwaneger at y rhestr o gyrff yn Adran 1, Rhan I o'r Atodlen i Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004(**3**) y cyrff canlynol (yn eu lle priodol yn ôl trefn yr wyddor), sef cyrff sy'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn dod o dan adran 216(3) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988:

(1) Kensington College of Business;

(2) London City College;

(3) School of Technology and Management(**4**).

(**1**) 1988 p.40.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2004/3095 (Cy.269).
(**4**) Is-adran o London School of Commerce.